Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Planning & Environment Decisions Wales

# Penderfyniad ar Gostau

gan Declan K Beggan BSc (Anrh) MSc DipTP DipMan MRTPI

Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru

Dyddiad y penderfyniad: 08/09/2023

Cais am gostau mewn perthynas â CAS-02591-Z9G0D9

Cyfeiriad y safle: Awel Y Bryn, Trigfa, Moelfre, LL72 8LL

---

- Gwneir y cais o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 78, 322C ac Atodlen 6.
- Gwneir y cais gan Mr a Mrs D Adams am ddyfarniad llawn o gostau yn erbyn Cyngor Sir Ynys Môn.
- Roedd yr apêl mewn cysylltiad â gwrthod rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer "Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu hefo balconis Juliet".
- Gwnaed ymweliad â'r safle gan yr Arolygydd ar 25 Gorffennaf 2023.

---

**Penderfyniad**

1. Caniateir y cais i ddyfarnu costau yn ôl y telerau a nodir isod.

**Y cyflwyniadau**

2. Gwnaed y cais am gostau yn ysgrifenedig gan Mr a Mrs Adams ac mae'n ymwneud â dyfarniad llawn ar seiliau sylweddol. Ymatebodd y Cyngor yn ysgrifenedig i'r cais am gostau.

**Rhesymau**

3. Mae Adran Atodiad 12 'Dyfarnu Costau' y Llawlyfr Rheoli Datblygu ('yr Atodiad') yn cynghori, ni waeth beth fo canlyniad apêl, ceir dyfarnu costau dim ond pan fydd un o'r partïon wedi ymddwyn yn afresymol a bod hynny wedi arwain at dreuliau diangen neu wastraffus yn y broses apelio i'r parti sy'n gwneud y cais am gostau. Mae'n esbonio nad yw awdurdodau cynllunio lleol yn rhwym i fabwysiadu cyngor proffesiynol eu swyddogion. Fodd bynnag, mae disgwyl iddynt ddangos bod ganddynt seiliau cynllunio rhesymol dros benderfynu yn groes i'r cyngor hwnnw a'u bod yn gallu cyflwyno tystiolaeth berthnasol i gefnogi eu penderfyniad. Mae'r Atodiad yn cynghori os byddant yn methu gwneud hynny, mae'n bosibl y caiff costau eu dyfarnu yn eu herbyn.
4. Byrdwn y cais am gostau yw bod y Cyngor, wrth wrthod caniatâd cynllunio, heb ddangos seiliau cynllunio rhesymol dros wneud penderfyniad yn groes i gyngor ei swyddogion ei hun. Roedd ymateb y Cyngor yn dibynnu i raddau helaeth ar ddolenni i amrywiaeth o drafodaethau'r pwyllgor cynllunio fel cyfiawnhad dros ei safiad.
5. Roedd rhesymau'r Cyngor dros wrthod caniatâd cynllunio yn mynd yn groes i gyngor swyddogion proffesiynol ynghylch derbynioldeb y cynnig, fel y manylwyd yn fy llythyr

penderfyniad. Cyflwynwyd cyfres gynhwysfawr o adroddiadau i bwyllgor cynllunio'r Cyngor, yn manylu ar dderbynioldeb y cynllun o ran unrhyw effeithiau yn ymwneud ag amodau byw, cymeriad ac ymddangosiad, a diogelwch ar y ffyrdd, ac roedd yr adroddiad olaf i'r pwyllgor cynllunio yn ehangu ar y materion hyn yn benodol.

6. Rwyf o'r farn bod dadleuon y Cyngor yn dibynnu i raddau helaeth, ac wedi'u dylanwadu'n ormodol, gan gred y gallai'r datblygiad a gynigiwyd a'r eiddo gael eu defnyddio at ddibenion ar wahân i'w defnydd cyfreithlon. Fodd bynnag, roedd y swyddogion yn go bendant yn eu cyngor ysgrifenedig a llafar i'r pwyllgor cynllunio ynghylch math a natur y cais a oedd ger eu bron, defnydd cyfreithlon yr eiddo, ei berthynas â'i gyffiniau, diffyg gwrthwynebiad technegol gan adran briffyrdd y Cyngor, cydymffurfedd y datblygiad arfaethedig â pholisïau perthnasol Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, a chydymffurfedd â safonau parcio ceir y Cyngor. Er gwaethaf y cyngor gan swyddogion ar sawl achlysur, aeth y pwyllgor cynllunio ymlaen at y seiliau dros wrthod.

7. Mae'r Atodiad yn datgan bod disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol ddangos bod ganddynt seiliau cynllunio rhesymol dros benderfynu yn groes i gyngor swyddogion a'u bod yn gallu cyflwyno tystiolaeth berthnasol i gefnogi eu penderfyniad, ac os byddant yn methu gwneud hynny, mae'n bosibl y caiff costau eu dyfarnu yn erbyn yr awdurdod. Er fy mod yn sylweddoli y gallai fod rhywfaint o arfer barn a chydbwysedd cynllunio wrth asesu cynnig, serch hynny, roedd dadleuon y Cyngor dros wrthod, fel yr esboniwyd yn fy llythyr penderfyniad, yn anargyhoeddiadol ac roedd diffyg sylwedd a chyfiawnhad cynllunio rhesymol iddynt o'u harchwilio yn erbyn y ffeithiau, h.y. defnydd cyfreithlon yr eiddo, y berthynas rhwng y cynnig a'i gyffiniau, a lefel y ddarpariaeth ar gyfer parcio ceir/yr effeithiau ar ffyrdd.

8. Roedd safiad y Cyngor wrth wrthod y datblygiad arfaethedig yn afresymol ar bob sail dros wrthod ac yn mynd yn groes i'r cyngor yn yr Atodiad. Mae ymddygiad afresymol y Cyngor wedi arwain at gostau diangen a gwastraffus i'r ymgeiswyr wrth ddilyn y broses apelio hon. Gellir cyfiawnhau dyfarnu costau yn ôl y telerau a nodir isod.

**Gorchymyn Costau**

9. Wrth ymarfer y pwerau o dan adrannau 78, 322C ac Atodlen 6 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel y'i diwygiwyd, a'r holl bwerau galluogi eraill yn y cyswllt hwnnw, GORCHMYNNIR DRWY HYN y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn talu costau llawn trafodion yr apêl a ddisgrifir ym mhennawd y penderfyniad hwn i Mr a Mrs Adams.

10. Gwahoddir yr ymgeiswyr nawr i gyflwyno manylion am y costau hynny i Gyngor Sir Ynys Môn, yr anfonwyd copi o'r penderfyniad hwn ato, gyda'r bwriad o ddod i gytundeb ynghylch y swm. Os na fydd y partïon yn gallu cytuno ar y swm, amgaeir copi o'r nodyn cyfarwyddyd ar sut i wneud cais am asesiad manwl gan Swyddfa Gostau'r Uwchlysoedd.

*Declan K Beggan*

AROLYGYDD